Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Teithlen y De-ddwyrain: dilynwch stori Arglwyddi Mers y De

Chwaraeodd Arglwyddi Mers y De ran hanfodol - ond amrywiol - yn hanes Cymru ar ôl y Goresgyniad Normanaidd. Gallwch ddilyn stori dechrau'r goncwest yn y De, a'r frwydr i gadw'r llaw drechaf, ar glwstwr o safleoedd Cadw.

Roedd y castell cyntaf a gododd y Normaniaid yng Nghymru, sef **Cas-gwent**, **Abaty Tyndyrn** gerllaw a **Chastell Trefynwy** yn mynegi'n glir bod yna fwriad i oresgyn Cymru a'i sadio. Cafodd Castell Grysmwnt, y Castell Gwyn a Chastell Ynysgynwraidd eu codi yn nyffryn Afon Mynwy er mwyn rheoli'r llwybr rhwng Henffordd a Threfynwy. Dysgwch sut roedd y safleoedd hyn gyda'i gilydd yn rhan o ffin gadarn rhwng Lloegr y Normaniaid a theyrnasoedd y Cymry a sut y tyfodd diwylliant a chymdeithas wahanol ar y gororau.

1



Castell Cas-gwent

Castell Cas-gwent yw un o'r ceyrydd carreg hynaf ym Mhrydain. Cafodd ei sefydlu gan William fitz Osbern blwyddyn ar ôl Brwydr Hastings. Bu'r castell mor rymus nes iddo barhau i gael ei ddefnyddio tan 1690, gan gynnwys gwarchae cofiadwy yn ystod Rhyfel Cartref Lloegr. Drwy'r canrifoedd, tyfu ac ehangu wnaeth y castell ar hyd yr esgair gul ar ben y clogwyn. Mae'n gastell anferth a chymhleth sy'n haeddu cael ei archwilio; mae yma'r drysau castell hynaf yn Ewrop, yn fwy nag 800 mlynedd oed, ac mae siambr liwgar yr Iarll yn wledd i'r llygaid. Mae wedi denu llawer o artistiaid, a'r enwocaf yn eu plith oedd Turner.

2

Abaty Tyndyrn

Dim ond 13 munud yn y car o Gas-gwent mae **Abaty Tyndyrn**, sef yr abaty canoloesol gorau sydd wedi goroesi yng Nghymru. Cafodd ei sefydlu gan un o Arglwyddi'r Mers, Walter de Clare, yn ganolfan ysbrydol i arglwyddi'r Normaniaid ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Tyndyrn oedd yr ail abaty Sistersaidd ym Mhrydain. Mae'r olion a welir heddiw yn gymysgedd o waith adeiladu sy'n cwmpasu cyfnod o 400 mlynedd rhwng 1131 a 1536. Cewch eich rhyfeddu gan y ffenestri enfawr a'r cyfoeth o fanylion addurniadol a geir ar y muriau, y pyrth a'r bwâu uchel. Os ydych yn teimlo'n egnïol, ewch am dro i fyny'r bryn serth i 'Bulpud y Diafol' i fwynhau'r olygfa wych dros yr abaty Gothig ysblennydd.

3

Castell Trefynwy

4

Castell Gwyn

Yn uwch i fyny afon Gwy, y safle nesaf welwch chi fydd **Castell Trefynwy** a gafodd ei gomisiynu gan William fitz Osbern yr un pryd â Chas-gwent, i fod yn un o gadarnleoedd allweddol goresgyniad y Normaniaid yng Nghymru. Mae gweddillion y tŵr mawr yn deillio o hanner cyntaf y ddeuddegfed ganrif ac yma y ganed Henry V. Ymhellach i'r gorllewin fe welwch chi'r **Castell Gwyn** yng nghanol tyrau crwn pwerus. Ym 1138, unodd y Brenin Stephen y Castell Gwyn â **Chastell Ynysgynwraidd** a **Chastell Grysmwnt** a chreu arglwyddiaeth y Tri Chastell. Ym 1201 daeth y tri o dan reolaeth un arglwydd, Hubert de Burgh, a oedd yn gyfarwydd iawn â phensaernïaeth filwrol yn sgil cyfnod o ymladd yn Ffrainc. Aeth ati i ailgodi'r Castell Gwyn yn gaer filwrol ond ychwanegodd adrannau domestig yn Ynysgynwraidd a Grysmwnt.

Teithlen y De-ddwyrain:
dilynwch stori Arglwyddi Mers y De

Castell Rhaglan

Tra yn ardal Trefynwy, mae'n werth troi oddi ar lwybr arglwyddi Mers y De i gael cip ar **Gastell Rhaglan**. Yn fwy o ddatganiad o gyfoeth nag o bresenoldeb milwrol, llwyddodd y castell i wrthsefyll lluoedd Oliver Cromwell am 13 wythnos yn ystod Rhyfel Cartref Lloegr. O'r tŵr mawr i'r porthdy mawr, mae popeth yn fawreddog yng Nghastell Rhaglan.

I wybod am y storïau a'r bobl y tu ôl i'n 128 o safleoedd hanesyddol, ewch i cadw.cymru.gov.uk.
Hoffwch Cadw ar Facebook a dilynwch @cadwcymru ar Twitter i gael y newyddion diweddaraf.

Rhyw 15 munud yw amser y siwrnai o Gas-gwent i Abaty Tyndyrn, 30 munud yw Cas-gwent i Drefynwy, 15 munud yw Trefynwy i Ynysgynwraidd ac Ynysgynwraidd i Grysmwnt ac 20 munud yw Grysmwnt i Raglan